Cymorth i blant ag anghenion addysgol arbennig

Trosolwg Estyn

Hydref 2003

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

…Rhagoriaeth i bawb… …Excellence for all…

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.
Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 029 2044 6446
Facs: 029 2044 6448

Cynnwys	Tudalen

1.	Diben	1
2.	Cefndir	1
3.	Nifer o fathau gwahanol o anghenion addysgol arbennig	1
4.	Mae gan nifer o blant anghenion addysgol arbennig	3
5.	Canfod ac ymyrraeth gynnar	5
6.	Enghreifftiau o amrywiaeth a chymhlethdod anghenion addysgol arbennig	6
7.	Effaith datblygiadau ac ymchwil mewn anghenion addysgol arbennig	7
8.	Tystiolaeth o arolygiadau - ysgolion	9
9.	Y fframwaith arolygu ysgolion	10
10.	Tystiolaeth o arolygiadau - AALlau	10
11.	Tystiolaeth o arolygiadau - gwaith aml-asiantaeth	11
12.	Gwaith arall gan Estyn sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig	12
13.	Materion allweddol canfod ac ymyrraeth gynnar	12
14.	Prif ganfyddiadau	15
15.	Argymhellion	17

1. Diben

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth gyd-destun i gefnogi'r adolygiad polisi anghenion addysgol arbennig (AAA) gan Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n nodi materion, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chanfod ac ymyrraeth gynnar, y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth arolygu Estyn a'i arbenigedd yn y maes hwn.

2. Cefndir

Y datblygiadau mwyaf diweddar yn y fframwaith statudol ar gyfer AAA yw'r Ddeddf AAA ac Anabledd 2002 a Chôd Ymarfer AAA Cymru 2002. Mae'r Côd yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi deddfwriaeth, diffiniadau, egwyddorion, rolau a gweithdrefnau.

Egwyddorion sylfaenol y Côd Ymarfer yw:

- dylid bodloni anghenion plant ag AAA;
- caiff anghenion eu bodloni mewn lleoliad prif ffrwd fel arfer;
- dylid ystyried barn pob plentyn;
- mae gan rieni rôl hanfodol i'w chwarae; a
- dylid cynnig mynediad llawn i addysg eang, gytbwys a pherthnasol i blant ag AAA.

Nodweddion llwyddiant yw:

- y canfyddir ac y bodlonir anghenion plant yn gynnar;
- bod ysgolion yn manteisio ar arfer orau;
- yr ystyrir dymuniadau plant a rhieni;
- y ceir cydweithio agos rhwng yr holl bartneriaid, gan gynnwys rhieni ac asiantaethau eraill;
- bod asesiadau'n amserol; a
- bod datganiadau AAA yn glir ac yn fanwl, ac y cânt eu monitro a'u hadolygu.

3. Nifer o fathau gwahanol o anghenion addysgol arbennig

Mae'r Côd Ymarfer yn cydnabod bod nifer o fathau gwahanol o AAA, ac y gall difrifoldeb a hirbarhad anghenion ymestyn ar draws sbectrwm eang. Yn ogystal,

mae anghenion yn aml yn rhyng-gysylltiedig, a gall nifer o blant fod ag anghenion sy'n ymestyn ar draws dau faes neu fwy.

Mae'r Côd yn disgrifio'r meysydd AAA canlynol:

- anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio;
- anawsterau dirnadaeth a dysgu;
- datblygiad ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol; ac
- anghenion synhwyraidd, corfforol a meddygol.

Gellir gweld **anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio** mewn disgyblion â:

- ataliad, nam neu anhwylder lleferydd a iaith;
- anawsterau dysgu penodol, fel dyslecsia[1] a dyspracsia[2];
- nam synhwyraidd a chorfforol, yn enwedig nam clywedol;
- nam corfforol parhaol;
- anhwylderau sbectrwm awtistig[3]; ac
- anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys.

Gall **anawsterau dirnadaeth a dysgu** fod yn:

- gymedrol;
- difrifol;
- dwys; neu
- benodol, fel dyslecsia a dyspracsia.

Gall anawsterau o'r fath ddigwydd ynghyd â:

- nam corfforol;
- nam synhwyraidd;

[1] Mae **dyslecsia** yn anhawster dysgu penodol lle mae darllen a/neu sillafu geiriau yn gywir ac yn rhwydd yn anodd iawn, neu'n datblygu'n anghyflawn iawn, er gwaethaf cyfleoedd dysgu priodol.
[2] Mae **dyspracsia** yn anhawster dysgu penodol, a elwir weithiau yn anhwylder cydlynu datblygiadol, sy'n cynnwys lletchwithdod, problemau o ran symud yn fedrus, ac yn aml ag anawsterau lleferydd ac emosiynol cysylltiedig.
[3] Mae **anhwylder sbectrwm awtistig** yn gyflwr niwrolegol datblygiadol sy'n arwain at nam rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu cymdeithasol, dychymyg, hyblygrwydd meddwl, ac weithiau, broblemau cydlynu cysylltiedig.

- anawsterau ymddygiad; ac
- anhwylder sbectrwm awtistig.

Gall disgyblion â phroblemau **datblygiad ymddygiad, emosiynol neu gymdeithasol** gynnwys y rheiny sy'n:

- dawedog ac ar wahân;
- amharu ac yn tarfu ar eraill;
- gorfywiog ac sy'n cael trafferth canolbwyntio; a
- heriol iawn o ran eu hymddygiad.

Mae'r anawsterau hyn yn debygol o ddigwydd ynghyd â mathau eraill o anghenion arbennig.

Mae **anghenion synhwyraidd, corfforol a meddygol** yn cynnwys:

- ystod lawn yr anawsterau clywedol, gweledol ac aml-synhwyraidd;
- nam corfforol oherwydd achosion niwrolegol, metabolig ac achosion eraill;
- cyflyrau meddygol a allai amharu ar fynediad y disgybl i addysg; a
- chyflyrau corfforol a meddygol sy'n effeithio ar allu dirnadol, ymddygiad neu gyflwr emosiynol disgybl.

Mae'r rhain yn rhestrau brawychus a gallant helpu i esbonio pam bod gan athrawon dosbarth ddiffyg arbenigedd yn aml i ganfod anghenion addysgol mae arbennig a darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, gall fod amrywiaeth eang mewn

- difrifoldeb angen;
- yr oedran pan ddaw'r angen i'r amlwg; a
- pha mor hir mae'r angen yn parhau.

4. Mae gan nifer o blant anghenion addysgol arbennig

Caiff graddau gwahanol o ddifrifoldeb a hirbarhad anghenion addysgol arbennig eu nodi'r dyddiau hyn. Disgwylir y bydd darparwyr y blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn ymateb yn gynyddol i'r anghenion hynny. Bodlonir rhan fwyaf yr anghenion gan ymyrraeth Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/gan yr Ysgol[4] neu Weithredu yn Y

[4] **Gweithredu Ysgol:** pan fydd athro dosbarth neu athro pwnc yn darparu ymyrraeth ar gyfer disgybl ag AAA sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheiny a ddarperir fel rhan o gynnig a strategaethau cwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol.

Blynyddoedd Cynnar/gan yr Ysgol a Mwy[5]. Bodlonir lleiafswm o anghenion addysgol arbennig drwy ddarparu datganiad.

Nid yw bodolaeth datganiad AAA, fodd bynnag, yn ddangosydd dibynadwy o lefel neu effeithiolrwydd canfod ac ymyrraeth gynnar, oherwydd:

- nid oes trothwy Cymru gyfan ar gyfer Gweithredu, Gweithredu a Mwy neu'r mater o ddatganiad AAA; ac

- mae rhai AALlau yn rhoi darpariaeth arbenigol i blant ag AAA heb ffurfio datganiad gyntaf.

Rydym yn gwybod:

- Bydd gan gyfran fawr o blant, efallai 1 o bob 4, rai anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol rywbryd yn ystod eu bywyd ysgol, weithiau drwy gydol hyn. Mae mwyafrif helaeth y plant â'r anghenion hyn mewn ysgolion prif ffrwd, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt anawsterau dysgu ysgafn i gymedrol, anawsterau dysgu penodol a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiad. Mae gan nifer o ddisgyblion gymysgedd o anghenion.

- Niferoedd cymharol fach o ddisgyblion sydd â namau synhwyraidd, anableddau corfforol ac anawsterau cymhleth difrifol iawn.

- Mae nifer y disgyblion ag anawsterau cyfathrebu wedi cynyddu'n raddol yn y blynyddoedd diweddar, er bod cyfran y myfyrwyr â'r anawsterau hyn yn dal i fod yn gymharol fach. Yn rhannol, mae niferoedd cynyddol y plant ag anhwylder sbectrwm awtistig yn gyfrifol am y cynnydd hwn.

- Yn gyffredinol, mae gan tua 3.4% o blant ddatganiadau AAA. Fodd bynnag, ceir amrywiaethau mawr rhwng AALlau lle mae'r ffigyrau'n amrywio rhwng 1.6% a 5.1%. Ar hyn o bryd, mae Estyn yn archwilio'r ffactorau sy'n rheoli'r arfer wahaniaethol wrth ddosbarthu datganiadau AAA ledled Cymru.

- Mae tri chwarter y plant â datganiadau AAA mewn ysgolion prif ffrwd.

- Yn 2001-2002, roedd gan 14% o'r disgyblion a gafodd eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol neu dros dro ddatganiadau AAA.

- Mae cyfran y datganiadau newydd a roddir i ddisgyblion dan 5 oed yn parhau i gynyddu. Yn 2002, roedd 24% o ddatganiadau newydd (466 allan o 1953) ar gyfer disgyblion o dan 5 oed, o'u cymharu â 14% ym 1997 (369 allan o 2570). Ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng AALlau. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2003,

---

[5] **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:** pan ddarperir cyngor neu gynhaliaeth i'r athro/athrawes ddosbarth neu'r athro/athrawes pwnc a'r Cydlynydd AAA gan arbenigwyr allanol, fel y gellir gosod ymyrraeth amgen, strategaethau ychwanegol neu wahanol i'r rheiny a ddarperir ar gyfer y disgybl drwy Weithredu gan yr Ysgol.

ym Mlaenau Gwent roedd disgyblion o dan 5 oed yn cyfrif am lai nag 1% o bob datganiad, tra bod y ffigwr cyfatebol ar gyfer Abertawe yn 7.7%.

5. Canfod ac ymyrraeth gynnar

Mae canfod cynnar yn parhau i osod nifer o heriau, yn enwedig ar lefel ysgol. Fodd bynnag, p'un ai ym mlynyddoedd cynharach addysg neu yn yr ysgol uwchradd, gall fod nifer o ffactorau ar waith sy'n gallu cuddio angen arbennig neu achosi cam-ddiagnosis. Mae'r rhain yn cynnwys: amrywiaethau arferol yng nghyfraddau datblygiad; effaith anfantais cymdeithasol, yn benodol, gallu rhieni i ysgogi ac annog dysgu eu plentyn; dylanwad hormonau a phwysau cyfoedion, yn enwedig i'r rheiny yn eu harddegau, effaith gwahanu'r teulu neu salwch; a gwahanu achos ac effaith lle mae gan blant broblemau dysgu ac ymddygiad. Mewn rhai achosion, gall hefyd fod materion amddiffyn plant, tor-cyfraith ieuenctid neu gamddefnyddio sylweddau neu alcohol. Mae'n bwysig bod gan staff mewn ysgolion yr arbenigedd i adnabod anawsterau am yr hyn yr ydynt a'r hyder i ymyrryd yn briodol yn gynnar. Mae hefyd yn hanfodol bod staff yn gallu cael cyngor arbenigol lle bydd ei angen.

Mae **canfod AAA yn gynnar** yn gofyn am systemau effeithiol ar gyfer:

- adnabod arwyddion cynnar anabledd mewn babandod;
- canfod problemau datblygiadol sy'n dod i'r amlwg mewn plentyndod cynnar;
- ymateb ar unwaith i unrhyw anghenion arbennig sy'n deillio o anaf, salwch neu gyflyrau cynyddol sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd ysgol;
- canfod problemau addysgol sy'n dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd ysgol gynradd, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â phroblemau cynnil datblygiad plentyn;
- adnabod effaith ffactorau fel trawma, anfantais a phroblemau iechyd meddwl ar ddysgu mewn unrhyw gyfnod ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc;
- adnabod yr anawsterau dysgu a all ddeillio o ddiffyg cydweddu rhwng anghenion datblygiadol plentyn a disgwyliadau dysgu a chymdeithasol y cwricwlwm ysgol; a
- galluogi i asiantaethau a'r partneriaid perthnasol i gydweithio.

Mae **ymyrraeth gynnar** yn fater o weithredu ar unwaith, beth bynnag yw oedran y plentyn neu'r person ifanc, er mwyn cael y cyngor, yr offer a'r gynhaliaeth arbenigol cywir ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, ar gyfer y teulu ac ar gyfer y lleoliad addysgol. Er mai'r ymagwedd gyffredinol yw ymyrryd ar y lefel isaf sydd ei hangen i wneud gwahaniaeth, awgryma profiad yn y gorffennol nad yw'r lefelau hyn bob amser yn ddigonol i rai pobl ifanc.

Gwyddwn nad ydym bob amser yn adnabod ac yn bodloni anghenion addysgol arbennig plant oherwydd:

- nad yw rhai plant yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn yr ysgol;
- bod gofynion o ysgolion am fwy o arian;
- bod canran uchel o ddisgyblion a chanddynt Ddatganiadau AAA yn cael eu heithrio o'r ysgol; ac
- er gwaethaf ymyriad gan ysgolion ac weithiau gan asiantaethau eraill, mae anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad a dysgu rhai plant yn parhau i gynyddu.

6. Enghreifftiau o amrywiaeth a chymhlethdod anghenion addysgol arbennig

Mae'r sefyllfaoedd canlynol yn dangos cymhlethdod y maes anghenion addysgol arbennig a'r gwahanol fathau o ymyrraeth y gall fod eu hangen.

Achos A: Genir merch â Syndrom Down a chaiff hyn ei gydnabod pan gaiff ei geni, neu'n fuan wedi hynny. Mae hi'n debygol o fod â phroblemau dirnadaeth a chyfathrebu, ond nid oes ffordd o wybod pa mor ddifrifol fydd y rhain. Bydd angen cymorth cynnar arni gan therapydd lleferydd a iaith, ynghyd ag asesiad anghenion addysgol arbennig. Mae'n ddigon tebygol y caiff hi ddatganiad a gallai fynychu naill ai ysgol prif ffrwd neu ysgol arbennig.

Achos B: Mae bachgen sy'n iach pan gaiff ei eni yn dioddef o lid yr ymennydd yn 22 mis oed. Yn sgîl hyn, mae nam difrifol ar ei glyw a'i olwg, ynghyd ag anawsterau corfforol a dysgu dwys. Bydd ganddo anghenion arbennig am ofal arbenigol, ymyrraeth feddygol ac addysgol drwy gydol ei fywyd. Bydd yn bendant yn cael datganiad ac mae'n hynod debygol o fynychu ysgol arbennig.

Achos C: Canfyddir nam clywedol dwys babi gan raglen sgrinio newydd-anedig yn fuan ar ôl ei geni. Rhoddir cymhorthion clywed i'r babi a chaiff ei rieni gynhaliaeth wythnosol gan athro/athrawes ar gyfer y byddar. Maes o law, caiff blaniad cogyrnol ac erbyn saith oed gall ddeall a defnyddio lleferydd bron gystal â phlant eraill. Efallai y caiff ddatganiad, ond gallai gael y gynhaliaeth briodol mewn ysgol prif ffrwd gan Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Achos CH: Mae bachgen bach sy'n iach ac yn fodlon yn ystod ei flynyddoedd cynnar yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ac eistedd yn llonydd yn yr ysgol. Mae ef yn eithaf trwsgl am ei oedran ac nid yw ei leferydd wedi datblygu gystal ag y dylai. Mae'n ei chael hi'n anodd iawn i ddarllen ac ysgrifennu, ac mae'n ceisio osgoi'r gweithgareddau hyn. Gallai hyn arwain ato'n dwyn sylw ei ffrindiau a chwarae'r ffŵl yn y dosbarth a allai droi'n ymddygiad sefydlog heb ddod i'r afael â hyn. Mae ganddo anawsterau dysgu cymedrol sy'n debygol o barhau nes bod ei ysgol yn dod o hyd i ffordd o'i addysgu sy'n ei alluogi i ddysgu'n llwyddiannus. Efallai y bydd angen cynhaliaeth arbenigol ar gyfer rhai tasgau a rheoli ymddygiad. Mae'n debygol y caiff ei gefnogi gan Weithredu Ysgol Plws yn ei ysgol gynradd prif ffrwd.

Achos D: Roedd merch 10 oed wedi bod yn hapus ac yn llwyddiannus yn yr ysgol. Fodd bynnag, cafodd ei cham-drin yn ei chartref wedi hynny, ac yn sgîl hyn aeth yn ymosodol ac yn anodd ei thrin yn yr ysgol. Mae ganddi anawsterau emosiynol ac ymddygiad a allai barhau neu beidio, yn dibynnu pa mor gyflym a pha mor effeithiol y mae ei theulu, ei gweithiwr cymdeithasol a'i hathrawon yn canfod y broblem, yn ymyrryd, ac yn rhoi'r gynhaliaeth gywir iddi. Gall hyn gael ei gynnig gan gynhaliaeth Gweithredu gan yr Ysgol, a dylai gynnwys cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd.

Achos DD: Daw bachgen pump oed i'r ysgol a chanddo ymddygiad hynod anodd ei drin. Mae'n hoffi cynnau tanau ac mae'n dreisgar tuag at ei athro a phlant eraill. Mae ei deulu wedi bod yn adnabyddus i weithwyr cymdeithasol ers ei eni, ac wedi nifer o gyfeiriadau amddiffyn plant, mae wedi'i leoli gyda theulu maeth. Mae mewn perygl o gael ei wahardd o'r ysgol, ac mae ei ofalwr maeth bellach yn pryderu am ei phlant ei hun. Mae ganddo anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad difrifol iawn, ac mae'n debygol y caiff ddatganiad a chynhaliaeth ychwanegol. Fodd bynnag, gan ystyried ei hanes, mae'r anawsterau yn hynod debygol o barhau am gryn dipyn o amser. Bydd angen i'r Gwasanaethau Addysg a Chymdeithasol gynllunio ar y cyd ar ei gyfer hyd y gellir rhagweld. Gall gael ei roi mewn ysgol arbennig breswyl rywbryd.

Achos E: Ar ôl cyfnod o bresenoldeb gwael, mae merch yn ei harddegau yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol yn gyfan gwbl. Mae'r Swyddog Lles Addysg yn ymweld â hi ac yn annog ei rhieni i fynd â hi i weld y Meddyg Teulu, sy'n dweud ei bod yn dioddef o iselder. Mae'r dehongliad hwn yn sioc i bawb yn yr ysgol heblaw ei ffrind gorau, a oedd yn gwybod ei bod yn ddagreuol ac yn pryderu am ei hymddangosiad ers cryn amser. Mae ganddi anawsterau emosiynol sylweddol ond rhai sydd heb gael eu hadnabod a gall fod angen darpariaeth addysgol wahanol arni am gyfnod.

Achos F: Caiff bachgen yn ei arddegau ei wahardd o'r ysgol a'i anfon i'r UCD leol. Ar ôl iddo gyrraedd, caiff y staff fod ei ymddygiad yn tawelu'n eithaf cyflym, ond bod ganddo fedrau llythrennedd gwael iawn, hunan-barch isel a'i fod yn argyhoeddedig na all ddysgu. Roedd wedi ceisio cuddio ei anawsterau darllen ac ennill statws gyda'i gyfoedion drwy ymddygiad hy ac amhriodol yn yr ysgol. Dengys asesiad ei fod yn dioddef o dyslecsia a bydd angen cynhaliaeth am hyn, yn debygol drwy Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.

7. Effaith datblygiadau ac ymchwil mewn anghenion addysgol arbennig

Yn y blynyddoedd diweddar, gwnaed ymchwil sylweddol i effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer cynnal plant ag AAA a diddordeb yn y trefniadau. Er enghraifft, yn 2001, cyhoeddodd Estyn 'Ansawdd a Safonau mewn Ysgolion Uwchradd: Anelu at Ragoriaeth yn y Ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig'. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau am AAA ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi arweiniad. Mae nifer o AALlau ac ysgolion wedi adolygu eu trefniadau yn sgîl hyn.

Er bod gennym rai arwyddion o effeithiolrwydd ymagweddau gwahanol i ymyrraeth gynnar, mae ein gwybodaeth yn dameidiog. Yn sgîl hyn, caiff arian ei wario'n rhy

aml ar ymyraethau heb wybod am eu heffeithiolrwydd, neu cânt eu derbyn heb eu hamau. Mae'r adroddiad diweddaraf gan y Comisiwn Archwilio 'AAA: Mater Prif Ffrwd' yn nodi bod, 'diffyg monitro systematig gan ysgolion ac AALlau yn ei gwneud hi'n anodd adnabod arfer dda – neu herio arfer wael'.

Mae'n anodd cael gafael ar dystiolaeth ymchwil o ansawdd da ynglŷn ag ymyraethau addysgol arbennig, yn rhannol oherwydd na allwn fod yn sicr ein bod yn cymharu pethau o'r un anian. Mae natur anghenion plant hefyd yn newid dros amser, wrth iddynt ddatblygu ac aeddfedu. Fodd bynnag, yn weddol ofalus, gallwn ddweud yr ymddengys bod yr ymyraethau canlynol yn effeithiol ar gyfer nifer o ddisgyblion:

- rhaglenni addysgu strwythuredig i blant ag anawsterau dirnadaeth a chyfathrebu, gan gynnwys Cludiant [6] a rhai o'r rhaglenni arbenigol ar gyfer plant ifanc awtistig fel TEACCH (Triniaeth ac Addysg i Blant Awtistig sydd â Nam Cyfathrebu);

- rhaglenni addysgu blynyddoedd cynnar sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr yn llawn fel addysgwyr;

- rhaglenni llythrennedd a rhifedd teuluol;

- cyngor ac arweiniad arbenigol i rieni plant ifanc â nam clywedol a gweledol;

- ymagweddau arbenigol i addysgu plant â nam aml-synhwyraidd i gyfathrebu;

- rhaglenni addysg dywysol[7] ar gyfer plant ifanc ag anableddau corfforol;

- darparu grwpiau meithrin (nurture)[8] mewn ysgolion cynradd, sy'n darparu ar gyfer plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad sylweddol;

- rhaglenni addysgu aml-synhwyraidd[9] ar gyfer anawsterau dysgu penodol; a

- rhai ymyraethau iechyd meddwl arbenigol, fel therapi byr[10] a therapi ymddygiad dirnadaeth[11].

Dylid gwybod llawer mwy ynglŷn ag effeithiolrwydd rhaglenni ymyrraeth gynnar fel y gall plant a theuluoedd gael y cyngor gorau, ac y gellir cael gwerth gorau o wario arian cyhoeddus.

---

6 Mae **Cludiant** yn gynhaliaeth addysgol wedi'i chynllunio, yn y cartref i blant cyn-ysgol ag anghenion addysgol arbennig. AALlau sydd fel arfer yn darparu gwasanaethau Cludiant.

7 Mae **addysg dywysol** yn helpu rhai plant â pharlys ymenyddol, ac yn fwyaf diweddar mae wedi ehangu i gynnwys ystod ehangach o blant ac oedolion ag afiechydon ysgogol. Ym Mhrydain, mae'n ymyrraeth gynnar aml-ddisgyblaethol gyda ffisiotherpyddion, therapyddion galwediagethol, therapyddion lleferydd a iaith ac addysgwyr y blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda rhieni

8 **Grwpiau meithrin (nurture):** darpariaeth grŵp bach mewn ysgolion cynradd, fel arfer ar gyfer plant a nodwyd fel rhai ag ymddygiad sy'n anodd ei drin, a/neu brofiadau cynnar trawmatig.

9 Mae **rhaglenni addysgu aml-synhwyraidd** yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio eu synhwyrau clywed, gweld a symud i gryfhau dysgu a chofio geiriau newydd.

10 Mae **therapi byr** yn cynnwys defnyddio cyfweliadau byrrach nag mewn cynghori traddodiadol.

11 Defnyddir **therapi ymddygiad dirnadaeth** i nodi a newid patrymau meddwl a chredu nad ydynt o gymorth er mwyn newid patrymau ymddygiad.

8. Tystiolaeth o arolygiadau - ysgolion

Os edrychwn yn ôl dros y 3 blynedd diwethaf, mae'r patrwm yn un o welliant graddol yn y sector cynradd, gyda'r farn bod 80% o ysgolion cynradd yn rhoi darpariaeth dda neu dda iawn i blant ag AAA. Ceir darlun mwy cymysg yn y sector uwchradd, lle roedd y canran o ddarpariaeth dda neu dda iawn yn amrywio o 55% i 80% yn y cyfnod hwn. Gellir crynhoi'r sylwadau yn Adroddiadau Blynyddol y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y cyfnod tair blynedd fel a ganlyn:

yn **2000-2001**, roedd ysgolion yn fwyaf llwyddiannus lle:

- hyfforddwyd staff mewn ffyrdd effeithiol o fodloni AAA;
- y gwnaeth staff gysylltiadau cynnar ar draws cyfnodau;
- disgwyliwyd i'r holl staff rannu cyfrifoldeb am AAA; a
- chafwyd ymroddiad ac arweinyddiaeth gan uwch reolwyr.

materion penodol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy oedd:

- diffyg amser ar gyfer Cydlynwyr AAA;
- cael y cydbwysedd cywir o gynhaliaeth ar gyfer disgyblion; a
- sicrhau ymagwedd ysgol gyfan i AAA.

yn **2001-2002**, y pwyntiau cadarnhaol oedd:

- bod 80% o'r holl ysgolion yn rhoi cynhaliaeth dda o leiaf i ddisgyblion ag AAA; ac
- yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd gan ddisgyblion ag AAA fynediad llawn i ystod y cyfleoedd dysgu, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Ond canfu rhai athrawon ei bod hi'n anodd darparu gwaith i fodloni ystod eang anghenion disgyblion a bod angen cynllunio i ddefnyddio cynorthwywyr cynnal dysgu yn well.

Mae disgyblion ag AAA mewn ysgolion sy'n llwyddiannus o ran cyflawniad yn debygol o wneud yn dda hefyd. Fodd bynnag, rhaid bod y cwestiwn a oes gan ddosbarthiadau mewn ysgolion sy'n perfformio'n dda niferoedd anghyfartal o ddysgwyr ag anghenion arbennig nas bodlonir yn bryder penodol. Gall plant o'r fath fod fwyaf bregus mewn ysgolion uwchradd sy'n tangyflawni.

Yn ogsytal ag arolygiadau Adran 10, caiff Estyn wybodaeth o waith arolygu parhaus: fel arolygon penodol, arolygiadau ar y cyd gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o wasanaethau ar gyfer plant ag anableddau, ac ymweliadau monitro rheolaidd ag ysgolion annibynnol sy'n darparu ar gyfer plant ag AAA.

Rydym yn gwybod, o edrych ar gofnodion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad a leolir mewn ysgolion preswyl annibynnol, eu bod yn cynrychioli poblogaeth lle mae ymyrraeth gynnar yn amlwg wedi methu. Mae gan nifer ohonynt hanes o ganfod cynnar iawn gan wasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg, wedi'i ddilyn gan nifer o gyfnodau gwahanol o ymyrraeth gofal plant ac addysg. Yn yr achosion eithafol hyn, ceir tystiolaeth glir o waethygu cynyddol yn nghifrifoldeb eu hanawsterau, ynghyd â darpariaeth fwyfwy arbenigol a neilltuol.

Er gwaethaf canfod cynnar, efallai na roddwyd blaenoriaeth ddigonol ar draws yr holl asiantaethau yn y dechrau i sicrhau llwyddiant tymor hir i nifer o'r achosion eithafol hyn. Efallai na allai pob asiantaeth flaenoriaethu anghenion y plant hyn yn y tymor byr. Fodd bynnag, gall costau tymor hwy rhy ychydig o ymyrraeth yn y tymor byr fod yn sylweddol yn nhermau ariannol a dynol. Felly, mae angen i ddyrannu adnoddau a llunio penderfyniadau allu ymateb i fwy nag argyfyngau uniongyrchol. Mae yna ddadl gref dros gyllid ar y cyd ar gyfer gwaith atal ac ymyrryd gyda phlant a theuluoedd.

9. Y fframwaith arolygu ysgolion

Yn hanesyddol, ni chafwyd gofyniad yn y fframwaith arolygu i adrodd yn benodol ar ganfod ac asesu anghenion addysgol arbennig. Mae'r **trefniadau arolygu newydd**, a fydd yn weithredol o fis Medi 2004 ymlaen, a'r arweiniad a'r hyfforddiant cysylltiedig yn pwysleisio'r angen am ffocws cynhwysol ar ganlyniadau pob dysgwr, gydag AAA yn un rhan o'r cyfanrwydd. Bydd arolygwyr yn arfarnu ac yn adrodd ar saith cwestiwn allweddol. Yn yr arweiniad ar gyfer pob cwestiwn allweddol, caiff arolygwyr eu hatgoffa o'r angen i ffurfio barnau clir ynglŷn â chynnydd disgyblion ag AAA a rhoddir cyngor iddynt i'w cynorthwyo. Mae'n rhaid i arolygwyr ystyried y graddau y mae ysgolion yn 'cynllunio i fodloni anghenion unigol dysgwyr yn hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd'. Mewn perthynas â chanfod ac ymyrraeth gynnar, gofynnir i arolygwyr yn benodol ateb y cwestiynau canlynol:

A yw'r ysgol yn dehongli anghenion dysgu unigol yn effeithiol?
A yw'r ysgol yn darparu cynhaliaeth ychwanegol i fodloni anghenion unigol?

Bydd yr un cyntaf o'r cwestiynau penodol hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ran monitro cynnydd yn y dyfodol wrth ganfod AAA.

10. Tystiolaeth o arolygiadau - AALlau

Er 2001, cafwyd 11 arolygiad o wasanaethau AAA, gan gwmpasu hanner awdurdodau addysg lleol Cymru. Roedd barnau am ansawdd y gwasanaethau hyn yn cynnwys yr ystod lawn o ardderchog i wael, gyda rhan fwyaf y gwasanaethau yn cael eu barnu fel rhai 'da' neu 'gweddol'. O ran cynnydd yn y dyfodol, barnwyd fod y mwyafrif (7) yn addawol, er bod gan 4 gwasanaeth ragolygon ansicr am welliant. Ym mhob achos, cydnabu'r awdurdod lleol bwysigrwydd canfod ac ymyrraeth gynnar, er yr ystyriwyd ar brydiau bod hyn wedi'i gyfyngu gan adnoddau annigonol a/neu diffyg eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau.

Nodweddion cyffredin yn yr AALlau â gwasanaethau AAA effeithiol yw:

- bod yr AALl yn rhoi hyfforddiant a chyngor da i athrawon ynghylch AAA;
- bod cynlluniau AALl yn helpu ysgolion i reoli eu darpariaeth eu hunain ar gyfer anghenion addysgol arbennig;
- bod gan unedau arbenigol adnoddau priodol a staff â chymwysterau da; a
- cheir ymgynghori da ag ysgolion.

Mae gwendidau ailadroddus yn cynnwys: cyfathrebu cynlluniau AALl yn wael ac effeithiau ariannol y rhain; monitro ac arfarnu gwasanaethau yn aneffeithiol; ac oedi hir o ran darparu cynhaliaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, hyd yn oed lle mae'r anghenion hyn wedi'u nodi.

Mae Estyn a'r Comisiwn Archwilio wedi cynhyrchu meini prawf hunan-arfarnu drafft yn ddiweddar y gall AALlau eu defnyddio i'w helpu i asesu pa mor dda y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y maes hwn. Ceir 40 dangosydd nodweddion da mewn perthynas ag AAA. Mae'r maen prawf sy'n gysylltiedig â strategaeth yr AALl ar gyfer ymyrraeth gynnar yn arbennig o berthnasol i'r papur hwn, ynghyd â nifer o feini prawf sy'n gysylltiedig â darpariaeth ac effaith ymyraethau ar gyfer dysgwyr ag AAA. Gellir gweld y set lawn o feini prawf ar wefan Estyn.

11. Tystiolaeth o arolygiadau - gwaith aml-asiantaeth

Rhwng mis Medi 2001 a mis Mawrth 2002, ymwelodd AEM â sampl o brosiectau aml-asiantaeth â mewnbwn addysgol. Roedd yr holl brosiectau hyn yn rhai 'ymyraethol' o ran y ffaith eu bod yn targedu plant neu bobl ifanc bregus a'u teuluoedd ac yn gweithio gyda nhw er mwyn gwella eu cyflawniad addysgol a gwella cyfleoedd bywyd.

Ystyriwyd: manteision gwaith partneriaeth i blant, pobl ifanc a staff; yr hyn sy'n gwneud i brosiectau aml-asiantaeth weithio'n dda ar lefel strategol ac ar lefel weithredol; a'r rhwystrau i waith partneriaeth da.

Canfuwyd, lle mae partneriaethau'n gweithio'n dda:

- bod aelodaeth o bartneriaeth aml-asiantaeth, a chyllid o bartneriaeth aml-asiantaeth, yn rhoi mynediad gwell i ddarpariaeth, ymwybyddiaeth well o wasanaethau eraill a'r gallu i gynllunio mentrau rhyng-asiantaeth â statws cynyddol;
- mae gan staff fynediad gwell i ystod o wasanaethau ac arbenigedd;
- mae cynllunio ar y cyd yn well ar gyfer y partneriaid, gan gynnwys rhieni. Er enghraifft, mae'n cael gwared ar ddyblygu a chyfarfodydd diangen;

- mae gan staff ddealltwriaeth glir o'u rôl a'r ffordd y mae'n cydfynd â rolau partneriaid eraill. Gallant ddylanwadu ar bolisi a darpariaeth mewn asiantaethau partner, ac maent yn hyddysg iawn am y rhain;

- ceir defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac adeiladau gwell gan fod asiantaethau yn gallu rhannu ac felly'n gallu lleihau costau; a

- cheir defnydd mwy effeithiol o gyllid.

Fodd bynnag, canfu Estyn hefyd rwystrau i waith partneriaeth y mae angen mynd i'r afael â hwy, os yw partneriaethau aml-asiantaeth am fod yn gwbl effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gwael;

- cynllunio ac arfarnu heb eu datblygu'n ddigonol;

- lefelau cyllid, blaenoriaethau a pha asiantaeth sy'n talu am beth a phryd; a

- diffyg ymddiriedaeth gan un asiantaeth mewn un arall.

12. Gwaith arall gan Estyn sy'n gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig

Yn ogystal ag arolygiadau o ddarparwyr gwasanaeth unigol, mae Estyn yn ymwneud â meysydd gwaith eraill sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau a materion. Rydym yn gweithio'n agos ag arolygiaethau eraill, ACCAC a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Eleni, rydym yn cynnal neu wedi ymwneud â phrosiectau ar:

- arolwg o arfer yn natblygiad a chyflwyno Datganiadau AAA;

- gweithredu arweiniad cynhwysiad newydd mewn ysgolion prif ffrwd;

- defnyddio gweithwyr parabroffesiynol mewn ysgolion, y mae nifer ohonynt yn darparu ystod o gynhaliaeth i blant ag AAA;

- rheoli ymddygiad; a

- darparu therapi lleferydd a iaith.

Rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith ar y cyd gydag Arolygaeth Safonau Gofal Cymru ac yn cynnal cyfres o arolygiadau gydag Arolygaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau.

13. Materion allweddol canfod ac ymyrraeth gynnar

Er bod hyder cynyddol a darpariaeth well i blant ag AAA yn gyffredinol, mae materion pwysig o hyd mewn perthynas â chanfod ac ymyrraeth gynnar. Nid oes data sy'n dweud wrthym am nifer y plant na chanfyddir eu hanghenion o gwbl neu ba mor aml

y camddehonglir anghenion o'r fath. Mae'r pedwar maes AAA yn gosod heriau gwahanol iawn i ganfod ac ymyrraeth gynnar effeithiol. Yn ogystal, yn ddiamau, ceir anghydraddoldebau darpariaeth sylweddol yn y system bresennol.

Anawsterau gweledol

Mae'r mathau o AAA a ganfyddir yn gynnar yn gyffredinol yn cynnwys y namau cynenedigol amlwg fel Syndrom Down, a rhai anhwylderau synhwyraidd. Mae sgrinio cynnar am nam clyw, nam golwg ac anhwylderau cromosomaidd neu niwrolegol yn adnabod rhan fwyaf y babanod a phlant ifanc sydd â'r anawsterau hyn. Mae cynnydd wedi hynny yn dibynnu ar waith aml-asiantaeth ac ymyrraeth gynnar sydd yr un mor dda ym mhob maes. Mae'n hynod debygol bod yna anghysondebau yn ansawdd ac effeithiolrwydd y rhain ledled Cymru.

Effaith arfer hanesyddol

Mewn AAA a ganfyddir yn gynnar, ceir anghydraddoldebau darpariaeth ar gyfer ymyrraeth gynnar sy'n deillio o arferion hanesyddol, yn hytrach nag o unrhyw arfarnu rhesymegol o'r hyn sy'n gweithio. Yn rhannol, mae hyn oherwydd y graddau y mae cyrff gwirfoddol gwahanol wedi lobïo'n llwyddiannus am lefel a dull darpariaeth. Er enghraifft, gallai babanod â Syndrom Down gael llai o ymyrraeth addysgol na'r rheiny â nam sylweddol ar eu clyw. Gall ymyrraeth gynnar ar ffurf rhaglen addysg amser llawn yn y cartref i blentyn ifanc ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASA), a gyflwynir gan dîm Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol (DYC) neu therapyddion Lovaas[12], gostio hyd at £30,000 y flwyddyn. Byddai rhaglen addysgu cartref Cludiant ar gyfer yr un plentyn yn costio tua £2,000 y flwyddyn am ymweliad wythnosol gan athro/athrawes gyn-ysgol a gwaith wedi hynny gan rieni'r plentyn. Mae angen mwy o astudiaethau cymharol i bennu effeithiolrwydd cost yr ymagweddau gwahanol.

Rhieni, amgyffrediad y cyhoedd a charfanau pwyso

Gall y graddau y canfyddir AAA gwahanol ddibynnu ar lefel diddordeb y cyfryngau, lobïo gan rieni, gwybodaeth ar y rhyngrwyd a hyd yn oed bwysau masnachol. Er enghraifft, bellach mae ymwybyddiaeth well o ddyslecsia, dyspracsia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG)[13] ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig gan y cyhoedd a'r cyfryngau nag yn y gorffennol, sy'n arwain rhieni i bwyso am asesu a darpariaeth. Ceir grwpiau lobïo cenedlaethol sylweddol ar gyfer y 'syndromau' hyn. Mewn rhai achosion, ceir diddordeb masnachol mawr, er enghraifft, moddion ar gyfer ADCG, 'triniaethau' drud sydd heb eu profi ar gyfer ASA ac anawsterau dysgu penodol.

Mewn cyferbyniad â hyn, fel arfer ceir canfod cynnar llai effeithiol o'r AAA hynny sy'n llawer mwy cyffredin ond sydd â phroffil llai yn y cyfryngau, er enghraifft, anawsterau dysgu ysgafn a chymedrol. Nid oes unrhyw un yn honni bod ganddo 'driniaethau hud' ar gyfer problemau o'r fath, gan adael athrawon i ddygymod ag ymyrraeth heb

---

[12] **ABA a Lovaas**: Defnyddir yr ymagweddau ymddygiad hyn i addysgu medrau newydd i blant ag anhwylderau sbectrwm awtistig ac addasu ymddygiad. Mae'r rhaglenni hyn yn aml yn cynnwys cyflwyno ysgogiadau a rhoi canlyniad atgyfnerthol bob tro y bydd y plentyn yn ymateb yn gywir.

[13] Mae **ADHD** yn anhwylder datblygiadol diffyg sylw, gorfywiogrwydd a byrbwylltra, a chaiff ei ystyried yn un darddiad niwrolegol.

fawr o gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol o'r tu allan i'r ysgol. Mae rhai rhieni yn anhebygol o bwyso am ganfod cynnar oherwydd gall fod ganddynt hwy rai anawsterau dysgu eu hunain neu'u bod o dan anfantais gymdeithasol, neu oherwydd nad ydynt o reidrwydd yn dymuno tynnu sylw at anawsterau eu plentyn.

Yn achos anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad î ol, mae amharodrwydd ymysg y cyhoedd i wahanu'r rhain oddi wrth 'ymddygiad drwg'. Nid yw'r maes AAA hwn yn ennyn cydymdeimlad na chyllid. Efallai na fydd rhieni yn pwyso am ganfod cynnar, gan bryderu y bydd y label yn niweidiol i'w plentyn. Caiff plant ag anawsterau ymddygiad, er enghraifft, y problemau mwyaf yn ceisio mynd i mewn i ysgol ddethol eu rhieni. Eithriad bellach yw canfod ADHD, gan y gwelir y dehongliad hwn fel un meddygol ac 'yn y plentyn', ac felly nid oes a wnelo â rheoli gwael gan rieni.

Effaith wahaniaethol y Tribiwnlys AAA

Ymddengys fod y ffactorau hyn hefyd wedi effeithio ar waith y Tribiwnlys AAA o ran proffil achosion a phatrymau canlyniadau. Nid yw'r dadansoddiad achosion yn ôl math yr AAA yn Adroddiad Blynyddol y Tribiwnlys AAA ac Anabledd 2001-2002 (sy'n cynnwys Cymru a Lloegr), yn adlewyrchu'r ffigyrau cyfatebol sy'n gysylltiedig â'u cyffredinolrwydd yn y boblogaeth gyffredinol. Mae canran yr achosion sy'n ymwneud ag awtistiaeth a llythrennedd, gan gynnwys anawsterau dysgu penodol, ar 16.1% a 34.5%, yn uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl. Ar y llaw arall, caiff Anawsterau Dysgu Cymedrol eu tangynrychioli'n sylweddol ar 5.2% yn unig, yn yr un modd ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiad ar 14.2%. Mae'r adroddiad yn nodi bod 'Cynnydd nodedig unwaith eto yn nifer yr achosion sy'n ymwneud ag awtistiaeth' (cynnydd o 22% ar y flwyddyn flaenorol).

Hefyd, ymddengys fod yna batrwm canlyniadau gwahanol. Dim ond 12% o apeliadau a oedd yn gysylltiedig ag ASD a lleferydd a iaith a wrthodwyd, o'i gymharu â 28% am anawsterau Emosiynol ac Ymddygiad. Roedd yn fwy cyffredin i'r Tribiwnlys orchymyn i AALl asesu a llunio datganiad am lythrennedd nag am unrhyw AAA arall.

Gall y patrymau hyn ddylanwadu ar arferion canfod ac ymyrraeth gynnar AALlau, ac mewn rhai achosion, gallai danseilio polisïau sydd wedi'u hanelu fwy at ddarparu cynhaliaeth ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol yn hytrach na sicrhau y caiff datganiadau eu llunio.

Iechyd meddwl

Nid yw problemau iechyd meddwl y rheiny yn eu harddegau wedi'u nodi'n ddigonol, yn enwedig ymysg merched, oni bai y datblygant i fod yn wirioneddol ddifrifol neu nes bod hynny'n digwydd, e.e. anhwylderau bwyta, hunan-niwed, ceisio cyflawni hunanladdiad. Er bod ysgolion uwchradd yn nodi nifer o bryderon ynghylch anawsterau ymddygiad, nid ydynt bob amser yn gweld y cysylltiad â materion iechyd meddwl datblygol. Caiff maes anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol ei gymysgu'n rhy aml o hyd ag 'ymddygiad anystywallt' ac 'ymddygiad drwg'. Hyd yn oed lle cydnabyddir problemau iechyd meddwl, gall fod anhawster dybryd o ran cael gafael ar dimau Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc am gynhaliaeth.

14. Prif ganfyddiadau

Canlyniadau cadarnhaol

- mewn ysgolion da, mae pob disgybl, gan gynnwys y rheiny ag AAA, yn gweud cynnydd. Gan fod yna duedd gyffredinol o safonau'n codi, yn enwedig yn y sector cynradd, mae hyn yn galonogol iawn;

- dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ansawdd asesu mewn ysgolion wedi bod yn gwella. Mae hyn yn bwysig i blant ag AAA gan fod asesu effeithiol yn hanfodol ar gyfer monitro cynnydd a chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol;

- er gwaethaf straen gyda'r agenda safonau, mae yna ymrwymiad cryf i gynhwysiad ac ymyrraeth gynnar ar lefel ysgol a lefel AALl;

- mae yna ddealltwriaeth well ar y cyfan o anghenion addysgol arbennig gan yr holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys staff yr ysgol, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau etholedig; a

- cheir mwy o enghreifftiau o fudd-ddeiliaid yn cydweithio, ar draws cyfnodau ac yn ymwneud â nifer o asiantaethau.

Heriau sy'n parhau

- **Bodloni gofynion Deddf AAA ac Anabledd**

Efallai mai'r her fwyaf, gan ystyried cyflwr yr adnoddau adeiladau yng Nghymru, yw sicrhau hygyrchedd llawn pob ysgol. Fodd bynnag, ffactorau allweddol eraill yw hyfforddiant staff a chynhaliaeth staff. Gan ystyried ystod enfawr yr anghenion a all godi, mae'n anochel y bydd angen hyfforddiant rheolaidd a chynhaliaeth barhaus ar athrawon a staff ysgolion. Mae cynnydd meddygol a thechnolegol, ynghyd â newidiadau mewn agwedd ac ymrwymiad i gynhwysiad, yn golygu bod plant ag anawsterau difrifol a chymhleth yn cael eu derbyn fwyfwy mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn gofyn am newidiadau, nid yn unig o ran y ffyrdd y gallai ysgolion weithredu, ond hefyd o ran darparu gwasanaethau eraill fel therapi a thrafnidiaeth.

- **Asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr ag AAA**

Ni wyddys llawer ynglŷn â pha mor dda y mae plant ag AAA yn cyflawni mewn ysgolion. Nid yw nifer o ysgolion ac AALlau yn dadansoddi ac yn monitro cynnydd eu disgyblion ag AAA yn systematig, efallai oherwydd y caiff gwaith o'r fath ei lesteirio gan ddiffyg mesuriadau perfformiad cyffredin. Nid yw Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys pob disgybl. Yn benodol, gellir dynodi bod rhai disgyblion ag AAA (fel arfer, y rheiny sydd ag anawsterau dysgu dwys neu luosog) yn 'gweithio tuag at lefel 1' am gyfanrwydd eu bywyd ysgol. Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o gyflawniad ac nid yw'n ddefnyddiol i asesu a chynllunio athrawon. Mae hefyd yn cynnal system 'neilltuol' sy'n ystyried bod y disgyblion hyn 'y tu allan i drefniadau arferol' mewn rhyw ffordd.

Nid yw'r pwyslais presennol ar ganlyniadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn pynciau craidd fel ffordd o farnu perfformiad cymharol ysgolion yn ddefnyddiol o ran annog ysgolion i gynnwys disgyblion ag anawsterau dysgu sylweddol, neu'r rheiny ag ymddygiad sy'n amharu ar eu dysgu eu hunain, neu ar ddysgu disgyblion eraill. Ffordd bosibl o unioni hyn fyddai casglu a rhoi gwerth ar ystod ehangach o wybodaeth asesu sy'n adlewyrchu 'gwerth ychwanegol' mewn pynciau craidd ac mewn nifer o feysydd pwysigrwydd eraill i ddisgyblion unigol.

Mae gwaith yn cael ei wneud gan ACCAC, Cydlynwyr AAA, ysgolion arbennig ac eraill ar ffyrdd o wella'r sefyllfa hon.

- **Sicrhau cyfle cyfartal**

Mae gwahaniaethau sylweddol o ran argaeledd cynhaliaeth. Gall y gwahaniaethau hyn adlewyrchu lleoliad daearyddol, polisïau lleol a lefelau cyllid, arfer hanesyddol a llwyddiant (neu fel arall) grwpiau ymgyrchu lleol a chenedlaethol. Gall rhai rhieni ddylanwadu'n fwy nag eraill. Mewn rhai achosion, gall y straen rhwng bodloni anghenion dysgwyr unigol ac anghenion disgyblion eraill gael effaith negyddol ar y cyfleoedd sydd ar gael i rai pobl ifanc. Mae'r materion hyn wedi'u harchwilio uchod mewn perthynas â chanfod cynnar, ond gellir eu cymhwyso mewn unrhyw gyfnod.

Un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfle cyfartal yw tegwch y trefniadau cyllid sy'n ategu'r ddarpariaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r amgylchiadau yr un fath ledled Cymru. Nid oes gan ddisgyblion ag anghenion tebyg yr un mynediad i ddarpariaeth gyfartal o reidrwydd. Mae hyn yn berthnasol p'un a ydym yn ystyried disgyblion â datganiadau AAA neu heb ddatganiadau. Gan ysgolion y mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu ar gyfer yr ail grŵp fel arfer, tra caiff ei rannu ag AALlau ar gyfer disgyblion â datganiadau. Mae nifer o ysgolion, ac asiantaethau eraill, yn dadlau bod pwysau ariannol a rhai eraill yn eu hatal rhag darparu'r lefel gynhaliaeth a ddymunant.

Mae agwedd arall ar geisio darparu cyfle cyfartal yn wynebu llunwyr penderfyniadau pan fyddant yn ystyried a ddylent leihau cynhaliaeth ar gyfer plentyn unigol, ac felly'n rhyddhau adnoddau ar gyfer plentyn arall. Unwaith eto, gall ffactorau fel pwysau gan rieni ddylanwadu at ganlyniadau.

- **Cael data gwell am AAA i lywio llunio penderfyniadau**

Gall cryn dipyn o'r data am AAA fod yn gamarweiniol gan nad yw'n seiliedig ar ddiffiniadau neu feini prawf cyffredin. Felly, gall defnyddio data o'r fath arwain at gasgliadau ansicr. Mae hyn yn cynyddu anhawster cynnal ymchwil i faterion fel cydraddoldeb cyllid neu'n seiliedig ar gymariaethau rhwng AALlau.

- **Cydlynu gwell ac ymagweddau cydlynol ar bob lefel**

Dengys tystiolaeth arolygiadau fod gwahaniaethau sylweddol rhwng ysgolion yn yr effeithiolrwydd y defnyddiant staff parabroffesiynol i gynnal disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan nifer o ysgolion arbennig arfer dda o ran hyn. Gall cynorthwywyr cynnal dysgu ehangu profiadau dysgu disgyblion o'r fath yn fawr. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd lle:

- mae ysgolion yn darparu hyfforddiant i athrawon a staff cynnal o ran sut i gydweithio'n effeithiol; ac
- mae gan athrawon a staff cynnal amser i gynllunio, asesu ac arfarnu ar y cyd.

Mae ACCAC, Cydlynwyr AAA, ysgolion arbennig ac eraill yn gweithio ar ffyrdd i wella'r sefyllfa hon.

15. Argymhellion

Mae angen cynhaliaeth well ar ddisgyblion ag **anawsterau mwy cymedrol**, yn enwedig y rhai gyda phroblemau cymdeithasol ac ymddygiad.

Mae angen mwy o **hyfforddiant** cychwynnol a diweddaru ar athrawon i'w helpu i nodi ac asesu anghenion a chynnydd disgyblion. Mae angen 'ffocws AAA' penodol ar wahaniaethu cwricwlwm, mesur perfformiad a gosod targedau. Mae angen mwy o hyfforddiant ar athrawon yn y strategaethau penodol hynny sydd yn gweithio gyda nifer o blant.

Mae angen mwy o **ymchwil** i hysbysu llunwyr polisïau a phenderfyniadau yn well ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, costau a chyfle cyfartal.

Mae angen **cysondeb** gwell wrth asesu AAA, dyrannu adnoddau ac olrhain perfformiad er mwyn gwneud ymchwil yn haws a helpu i wella dealltwriaeth am effeithiolrwydd ymyraethau gwahanol.

Mae angen **gwaith rhyng-asiantaeth** mwy effeithiol a dylai fod yn ffocws i waith arolygu ar y cyd yn y dyfodol.